# Ffurflen gais ar gyfer Grant Technoleg a Chyfryngau Digidol Cymraeg
# Welsh-language Technology and Digital Media Grant Application Form

| **1: MANYLION YR YMGEISYDD**<br>APPLICANT DETAILS | |
|---|---|
| | |
| **1.1 Teitl y prosiect**<br>Project Title | Barddoni i Bawb |
| **1.2 Cyfanswm y grant y gwneir cais i Lywodraeth Cymru amdano**<br>Total Welsh Government grant sought | £22,500 |
| **1.3 Enw'r sefydliad**<br>Name of organisation | Optimwm |
| **1.4 Enw'r prif gyswllt a'i rôl yn y sefydliad**<br>Name of main contact and role within the organisation | Lowri Harris – Rheolwr Prosiect |
| **1.5 Cyfeiriad a chod post**<br>Address including postcode | Optimwm (Cartref Cwmbach), Heol Cwmbach, Drefach, Llanelli, SA14 7AD |
| **1.6 Ffôn**<br>Tel no | 01269 841989 / 07980444052 |
| **1.7 E-bost**<br>E-mail | lowri@optimwm.co.uk |
| **1.8 Gwefan**<br>Website | www.optimwm.co.uk |
| **1.9 Math o sefydliad**<br>Type of organisation<br>**(cyhoeddus, preifat neu trydydd sector)**<br>(public, private or third sector) | Preifat |
| **1.10 Rhif cofrestredig y cwmni neu elusen** Company or charity registration number<br>***(os yn berthnasol*** */ if relevant)* | 8957252 |

| **2: EICH PROSIECT**<br>YOUR PROJECT | | | |
|---|---|---|---|
| **2.1 Pa fath o brosiect ydych chi'n gwneud cais am arian i'w ddatblygu?**<br>What type of project are you applying for funding to develop? | | | |
| **Datblygu Ap**<br>Develop an App<br>☒ iOS<br>☒ Android<br>☐ WindowsMobile<br>☐ **Arall/**Other……… | **Datblygu gwefan**<br>Develop a website ☐ | **Datblygu meddalwedd i atgyfnerthu isadeiledd**<br>Develop software to reinforce infrastructure<br>☐ | **Marchnata/Codi ymwybyddiaeth**<br>Marketing/Awareness Raising ☐ |
| **Arall**/Other (**disgrifiwch**/ please describe) | | | |

| **Disgrifiad o'r prosiect**<br>Project description |
|---|

**2.2 Rhowch ddisgrifiad byr o'ch prosiect arfaethedig. Nodwch yr hyn y bwriedir cyflawni gyda'r grant, nod ac amcanion y gwaith yn ogystal â'r canlyniadau y dymunwch eu gweld. (Cyfeiriwch at y ddogfen "Asesu eich cais" er mwyn sicrhau eich bod yn cyflwyno digon o wybodaeth i'n galluogi i werthuso eich cais).**
**Dyma rai enghreifftiau o bethau pwysig i'w nodi:**

- **pa systemau gweithredu neu blatfformau y bydd eich cynnyrch yn eu defnyddio;**
- **sut y byddwch chi'n rhannu'r dechnoleg;**
- **pwy fydd yn berchen ar yr hawlfraint;**
- **unrhyw drydydd partïon sydd â buddiant yn neu'n berchen ar yr eiddo deallusol, neu rannau ohono;**
- **manylion trwyddedu;**
- **a ydy'r cais yn seiliedig ar dyfynbrisau gan gwmnïau allanol?**
- **hyd oes y cynnyrch, gyda manylion unrhyw gynllun i gynnal y gwasanaeth tu hwnt i gyfnod y grant, os yn berthnasol;**
- **cost eich cynnyrch i'r cyhoedd, os yn berthnasol.**

Please provide a short description of your proposed project. Note what you want to do achieve with the grant, your aims and objectives, as well as the desired outcomes you'd like to see. (Please refer to the document "Assessing your application" to ensure that you provide adequate information to enable us to evaluate your application)

Examples of important information to note:

- which operating systems or platform your product will use;
- how you intend to share the technology;
- who will own the copyright;
- any third parties with an interest in or ownership of the IP, or parts of it;
- licensing details;
- have you based budget on estimates from external suppliers?
- the lifespan of the product, with details of plans to maintain the service beyond the lifespan of the grant, if applicable;
- cost to end-user, if applicable.

Fel cenedl, rydym o hyd yn honi ein bod yn "Wlad beirdd a chantorion" wrth ganu ein hanthem genedlaethol, ac eto faint ohonom sy'n medru cynganeddi, sy'n deall gofynion limerig neu wedi rhoi cynnig ar unrhyw farddoni tu hwnt i odl fach syml?

Ein nod ni felly yw i greu ap 'Barddoni i Bawb' sydd, fel awgryma'r teitl, yn rhoi cyfle i bob Cymro a Chymraes

rhoi tro ar hen grefft ein cyndeidiau ac i ddysgu’r sylfaen o farddoni. Mae grwpiau lleol yn bodoli ledled Cymru i bobl gael blas o ddysgu’r grefft ond mae’r rhain ar ddydd ac amser penodedig, ac wrth gwrs mae yna lawer o bobl heb brofiad o farddoni a heb yr hyder felly i ymgeisio o flaen eraill. Dyma fantais ap fel ‘Barddoni i Bawb’ felly gan ei fod ar gyfer yr unigolyn i’w ddefnyddio ar ei ben neu ei phen ei hun. Gellid ei lawrlwytho a’i archwilio yn y cartref, ar y trên, ble bynnag yn wir y daw’r awen! Mae ap o ran fformat yn amlwg yn caniatáu cynhwysiant cymdeithasol, ac mi fyddai ‘Barddoni i Bawb’ yn berffaith i sicrhau fod siaradwyr Cymraeg, boed yn iaith gyntaf neu’n ddysgwr, yn cael mynediad i dechnoleg iaith Gymraeg ac yn galluogi’r hanner miliwn a mwy ohonom sy’n medru ar yr iaith i gymryd rhan lawn yn yr oes ddigidol.

Nid oes rhaid i’r ap fod yn brofiad unigol o hyd. Fe fydd yna gyfle i rannu sgôr neu gampwaith drwy gyfryngau cymdeithasol fel Facebook a Twitter ac yn hyn o beth i weld beth mae unigolion eraill ledled y wlad wedi cyflawni ac wedi’i ddysgu o’r adnodd.

**Mi fydd yr ap ar gael yn rhad ac am ddim ar gyfer ffônau symudol Apple (iOS 6), a systemau Android (2.3). Optimwm fydd yn berchen ar yr hawlfraint, ac oherwydd natur y cynnwys, ni fydd angen diweddaru’r cynnwys wedi i’r cytundeb ddod i ben.**



Pwy gwell i fod yn wyneb i’r ap a chreu cynnwys gwreiddiol iddo ond Bardd Plant Cymru 2013 – 2015, **Aneirin Karadog**. Mae Aneirin yn wyneb cyfarwydd ar S4C ac yn adnabyddus am ei waith barddoni arloesol e.e. yn troi hengerdd mewn i hip hop! Mae’n un o diwtoriaid Ysgol Farddol Caerfyrddin, sy’n cynnal gwersi cynganeddi i oedolion o bob oedran ac mae hefyd yn un o gyd-sefydlwyr Slam Cymru, cystadleuaeth farddoniaeth berfformiadol newydd a fydd yn digwydd ledled Cymru am y tro cyntaf eleni.

Mae yna sawl ffurf o farddoni y gellid eu cynnwys o fewn yr ap hwn. Ceir rhestr oddi tano o’r hyn rydym ni’n teimlo sy’n angenrheidiol i’w gynnwys yn yr ap ac sy’n gynwysiedig yn ein cynnig ariannol:

1. Cyflwyniad a gorolwg o’r ffurfiau barddoni – e.e. limerig, rap, cywydd
2. Odli
3. Cyflythrennu
4. Cymharu
5. Cynganeddu
6. Cytseiniaid / llafariaid
7. Cyfres Trosi (metaphor)
8. Cyfres personoli
9. Onomatopoeia

Er mwyn dysgu hyn oll mewn modd hwyliog, anffurfiol ac eto mewn fformat bydd yn galluogi’r defnyddiwr i ddysgu crefft, rydym yn rhagweld defnyddio casgliad o dempledi megis llenwi’r bylchau, ail-drefnu brawddegau / geiriau, cwestiynau amlddewis a thempledi sain

Dim nôd yr ap yw hyfforddi unigolyn i ennill y gadair (er, pwy a wyr?) ond cyfle i uno technoleg yr unfed ganrif ar hugain â chrefft a hen draddodiadau pwysig Cymreig.  Mae’n ap arloesol yn hyn o beth fydd heb os yn cynyddu’r defnydd o’r Gymraeg yn y byd digidol ac yn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith drwy dechnoleg.

Tua 500 o eiriau / Around 500 words

**2.3 Dyddiad yr allbwn cyntaf a’r olaf: (disgwylir i’r prosiect gael ei gwblhau ym mlwyddyn ariannol 2015-16 – nodwch yma os na fydd hyn yn bosibl a pham. Byddai prosiectau sy’n para tua 6 mis yn ddelfrydol).**

Date of 1st and last output: (we expect the project to be completed in the 2015-16 financial year – please note here if this is not possible and why. Projects of around 6 months would be ideal).

Yn ddelfrydol, fe fydden ni’n dymuno lansio’r ap newydd hwn yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a’r

Gororau, Awst 2015. Nid oes rhaid i'r adnodd cyfan fod yn barod, ond gellid cael canran sylweddol ohono wedi'i orffen ac o safon uchel iawn i'w lansio ar ddydd Llun y coroni.

Gan ystyried yr uchod felly, pe bawn yn llwyddiannus yn ein cais, gwelir amserlen arfaethedig oddi tano:

| CAM | DYDDIAD |
|---|---|
| Cyflwyno'r cais | 30.1.15 |
| Gwobrwyo'r ap / sicrhau'r grant | 30.3.15 |
| Cyfarfod Cychwynol | 31.3.15 / 1-2.4.15 |
| Manylu'r nodweddion | 10.4.15 |
| Creu dogfen nodweddion | 30.4.15 |
| Marchnata – Dechrau codi ymwybyddiaeth | Ebrill - Awst |
| Datblygu cam un | 15.6.15 |
| Cymeradwyo cam un os y dymunir | 30.6.15 |
| Treialu cam un gydag unigolion o fewn ein categorïau targed | 15-30.6.15 |
| Lansiad Eisteddfod | 3.8.15 |
| Datblygu cam 2 | 30.9.15 |
| Cymeradwyo cam dau, eto os y dymunir | 15.10.15 |
| Cyflwyno'r ap i Apple a Google Play | 30.10.15 |

Dim mwy na 200 o eiriau / No more than 200 words

**2.4 Disgrifiwch y farchnad ar gyfer eich cynnyrch neu wasanaeth, ynghyd â gwybodaeth am y gynulleidfa darged, hygyrchedd y cynnyrch, a phwy fydd yn elwa ar y gwasanaeth/cynnyrch. Os yn bosibl, dylech gynnwys amcangyfrif o faint o bobl a allai/a fydd yn elwa ar y cynnyrch, ee pob cyfreithiwr/aig sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg, sef tua 300 o bobl.**

Please describe the market for your product or service, along with information on the target audience, will the products be accessible, who will benefit from the services/products. If possible please include an estimate of how many people may/will benefit from your product e.g. every lawyer who speaks or is learning Welsh which equates to around 300 people

Gyda marchnata effeithiol, mae yna botensial i'r ap hwn fod o ddiddordeb i sawl carfan o bobl yng Nghymru ac i Gymry dros y byd: Pobl sy'n ymddiddori yn y byd llenyddol neu bobl wladgarol sy'n ymfalchïo yn ein traddodiadau fel cenedl.
Wrth edrych ar gynulleidfa darged, oddi tano gwelir enghreifftiau o'r math o bobl ry'n ni'n rhagweld bydd â diddordeb yn yr ap:

1. **Myfyrwyr**
   Gellid targedu myfyrwyr yn gyffredinol gan gynnwys y rheini yn neuaddau Cymraeg megis Pantycelyn a John Morris Jones, ond yn bennaf y rheini sy'n astudio'r Gymraeg fel pwnc gradd. Ceir ddarpariaeth draddodiadol (Cymraeg iaith gyntaf) ym Mangor, Aberystwyth, Abertawe ac yng Nghaerdydd. Ceir myfyrwyr yn astudio Cymraeg Proffesiynol yn Ne Cymru, Glyndŵr ac Aberystwyth ac mae yna nifer helaeth yn astudio'r Gymraeg fel gradd ail iaith yng Nghaerdydd, Aberystwyth, Abertawe a rhywfaint hefyd ym Mangor. Mae cwrs gradd dwyieithrwydd hefyd ar y gweill yn Y Drindod.


2. **Dysgwyr y Gymraeg**
   Yn ogystal â'r myfyrwyr uchod sy'n ail iaith, mae yna ddysgwyr di-ri sydd nid yn unig am ddysgu'r iaith ond hefyd am fabwysiadu ein traddodiadau megis barddoni. Anodd iawn yw amcan niferoedd ond mae yna lawer o sefydliadau sy'n dysgu Cymraeg i Oedolion gan gynnwys:
   - Cymraeg i Oedolion Bangor
   - Canolfan Canolbarth Cymru
   - Cymraeg i Oedolion, Prifysgol Caerdydd
   - De-orllewin Cymru Canolfan Cymraeg i Oedolion.
   - Canolfan Gwent
   - Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
   - Prifysgol De Morgannwg
   - Mae yna hefyd blatfform e-ddysgu cenedlaethol ar gyfer Cymraeg i Oedolion.

Nid adnodd addysgiadol mo hwn, ac er mwyn gweld felly a fyddai o ddiddordeb i drawstoriad o bobl, rydym wedi bod mewn cysylltiad ac wedi creu proffil o dri pherson o oed a lleoliad gwahanol:

| | |
|---|---|
| ENW | **Siân Phillips**  |
| BYW | Penybont ar Ogwr |
| OED | 64 |
| SWYDD | Wedi ymddeol – cyn dirprwy brifathrawes Ysgol Gynradd Cynwyd Sant, Maesteg |
| FFON | i phone 4 |
| APIAU CYFREDOL | WhatsApp a Facebook – dim ond pethau sy'n ymwneud â gweld lluniau o'i hwyrion a'i hwyresau |
| PAM FYDDAI 'BADDONI I BAWB' YN APELIO | Wastad wedi ffansio rhoi tro ar farddoni ond angen cyflwyniad a sylfaen i'r maes cyn meiddio mentro i ddosbarth. Mae meithrin sgiliau newydd wedi i chi ymddeol yn bwysig iawn a byddai medru ysgrifennu awdl fach syml neu gynghanedd yn gyflawniad mawr. Fe fyddai'r ap yn ddelfrydol hefyd i'w ddefnyddio mewn clybiau cinio a nosweithiau marched y wawr. |

| | |
|---|---|
| ENW | **Mabli Tudur**  |
| OED | 16 |
| BYW | Pentyrch ger Caerdydd |
| SWYDD | Disgybl yn Ysgol Plas Mawr – wedi dewis astudio lefel A yn y Gymraeg, Drama a Cherddoriaeth |
| FFON | Samsung Galaxy Ace |

| | |
|---|---|
| APIAU CYFREDOL | Twitter, Facebook, Instagram, YouTube a Snapchat |
| PAM FYDDAI 'BADDONI I BAWB' YN APELIO | Mi fydd ap barddoni yn rhoi'r cyfle blant sydd â diddordeb mewn diwylliant Cymraeg. Mi fydd yn rhywbeth newydd i ddysgu ac yn ffordd o wella sgiliau cyfathrebu ac yn dda ar gyfer y CV a'r byd gwaith. |

| | |
|---|---|
| ENW | **Bryn Jones**  |
| OED | 41 |
| BYW | Caernarfon |
| SWYDD | Newyddiadurwr yn y BBC |
| FFON | iPhone 4 |
| APIAU CYFREDOL | iPlayer, Tune in Radio, Cymru Fyw, Twitter, GoPro, BBC News, MetOffice, Gorillacam, Spotify, Vimeo, S4C Clic, TV guide, BBC Sport, Box, National Rail, RecordPad, TeraCentral. |
| PAM FYDDAI 'BADDONI I BAWB' YN APELIO | Fel tad i dri o blant oed ysgol gynradd mi fyddai cael ap barddoni yn ffordd wych i ddechrau cael hwyl efo geiriau efo nhw. Dros y blynyddoedd maen nhw wedi cael cyfnodau o ddarllen cyfrolau cerddi i blant, ac wedi mwynhau – ond mi fyddai cael ap i wneud barddoni yn hwy ac yn ffordd o feithrin y ddiddordeb hwnnw, yn enwedig gan eu bod nhw yn nesu at fynd i'r ysgol uwchradd – ac oedran pan mae technoleg yn rhan ganolog o'u bywyd bob dydd. Mi fyddai ap barddoni yn 'cwl' – sydd wastad yn help – ac yn gyfleus iawn gan y byddai ar eu ipad. Mi fyddwn innau hefyd – sy'n hoffi cymryd rhan mewn unrhyw gystadleuaeth creu limrig sy'n codi ei ben – yn cael boddhad o'r ap hefyd.....hynny yw, os fyddwn i'n cael heddwch i ddefnyddio'r ipad gan y plant am eiliad neu ddwy...."Ipad plîs dad. Diolch." |

Roedd y tri yn awyddus iawn i wybod mwy am gynnwys yr ap, ac roedd hi'n galonogol iawn gweld eu brwdfrydedd tuag at ein syniad. Wrth edrych ar Strategaeth Cymraeg y Llywodraeth Iaith Fyw: Iaith Byw, gwelwn fod rhesymau Bryn Jones uchod am ddefnyddio'r ap yn cyd-fynd â'r maes strategol 1: Y teulu, sef annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd. Yn yr un modd, gwelir rhesymau Mabli Tudur uchod yn cyd-fynd â maes strategol 2: Plant a phobl ifanc gyda'r nod o gynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith. Wrth i Siân Phillips grybwyll mynychu gwersi barddoni a defnyddio'r ap mewn nosweithiau megis Merched y Wawr, gellid dadlau fod gorgyffwrdd yma hefyd gyda maes strategol 3: Cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned. Mae'r ap yn gyffredinol heb os yn cyd-fynd â maes strategol 6: Y seilwaith, gyda'r dymuniad o weld mwy o adnoddau ac arfau ar gael i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys o fewn yr amgylchedd digidol.

Mi fydd yr ap felly yn hybu'r Gymraeg ac yn fodd i Gymry ddysgu crefft newydd. I rai fel Siân Phillips uchod, mae'n gyfle hefyd i ddysgu ail grefft sef lawrlwytho aps ac i gofleidio'r dechnoleg sydd ar gael heddiw.

Wrth farchnata'r ap felly, fe fydden yn anochel yn targedu'r carfanau uchod ond fel y gwelwn o'r tri phroffil,

mae'n anodd pennu pwy fydd â diddordeb. Dyma rhai o'n syniadau felly ar sut i godi ymwybyddiaeth ac i hyrwyddo'r ap:

- Cydweithio gyda'r comisiynydd iaith Meri Huws
- Erthyglau mewn cylchgronau llenyddol megis Y Glec, Barddas, Taliesin, Poetry Wales a Llenyddiaeth Cymru
- Cydweithio gydag Emyr Davies o CBAC
- Presenoldeb cyson ar gyfryngau cymdeithasol – Facebook, Twitter, Pinterest
- Erthygl mewn papurau a chylchgronau megis Golwg a Gwawr
- Cyfweliad ar S4C – Rhaglen Heno (Mae Aneirin yn gyn-gyflwynydd)
- Cyfweliad ar Radio Cymru
- Danfon datganiadau i'r wasg

Ein gobaith fyddai lansio'r ap yn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau ar ddydd Llun y Coroni. Aneirin Karadog fydd yn arwain y digwyddiad gyda'r gobaith o ddenu llawer o'r uchod a chodi ymwybyddiaeth o fewn wythnos gyntaf Awst felly. Wedi'r cwbwl, dyma wythnos lle rhoddir llawer iawn o sylw'r Cymry i farddoni. Mae'n siŵr y bydd gweld y seremonïau a theilyngdod yn ysbrydoli llawer i roi tro ar ddysgu crefft newydd!

**2.5 Rhowch grynodeb o waith eich sefydliad. Cyfeiriwch at ddogfennau eraill sy'n cefnogi'ch cais lle bo'n berthnasol (gallwch ddarparu dolenni gwe i'r rhain, os ydych yn dymuno)**

Please provide a summary of your organisation's work. Please refer to other documents which support your application where relevant (you can provide a web link to these, if you wish)


Optimwm fydd yn arwain y cais hwn. Cafodd y cwmni ei ffurfio gan Mike a Lowri Harris wedi pedair blynedd ar ddeg o reoli prosiectau a chynhyrchu adnoddau digidol ar gyfer y sectorau cyhoeddus a phreifat. Wedi gweithio gydag S4C, Llywodraeth Cymru, BBC, Gyrfa Cymru a'r Weinyddiaeth Amddiffyn i enwi ond ychydig, mae Mike a Lowri yn dod â phrofiad helaeth a gwerthfawr i'r cwmni. Dim ond y gorau oedd yn dderbyniol i'r holl gwsmeriaid uchod, ac mae'r ethos yma wedi datblygu'n werthoedd craidd Optimwm. Ansawdd, rhagoriaeth a boddhad cleientiaid sy'n holl-bwysig i ni wrth i ni ddarparu ein prif wasanaethau sef Digidol, Dysgu, Rheoli Prosiectau ac Ymgynghoriaeth.


Ers sefydlu'r cwmni bron i flwyddyn yn ôl, mae tîm wedi ennill a chyflwyno apiau ac adnoddau dysgu i nifer o gleientiaid. Gerddi Botaneg Cymru oedd un o'r rhain ble comisiynwyd y cwmni i ddatblygu adnoddau dysgu dwyieithog ar-lein gyda gogwydd ar fideo yn ogystal ag animeiddiadau a deunydd rhyngweithiol.


Wrth ddatblygu apiau, mae Optimwm wedi bod yn gweithio gyda chwmni Moilin. Mae Moilin Cyf yn ddarparwr ap symudol blaenllaw yn yr iaith Gymraeg yng Nghymru gyda chomisiynau yn cynnwys ap yr Eisteddfod yr Urdd, y Sioe Frenhinol a'r Tywydd. Mae Moilin wedi tynnu sylw'r cyfryngau a nifer o gylchgronau a rhaglenni teledu, gan gynnwys Newyddion, Golwg a Heno ar gyfer rhagoriaeth mewn datblygu apiau. Mae'r cwmni wedi derbyn canmoliaeth uchel am y defnyddioldeb gan ddechrau gydag ap yr Urdd, Sir Benfro, 2013. Adeiladwyd yr ap tywys ddwyieithog hwn i'r iPhone ag Android, ac fe gafodd ei ganmol yn helaeth am safon ei nodweddion a'i ddyluniad. Cyrhaeddodd rhif 30 yn siart adloniant iTunes.
iPhone : http://moil.in/steddfodurddios
Android : http://moil.in/steddfodurdddroid

Hefyd yn ystod Haf 2013, datblygwyd brand newydd y Gymdeithas Amaethyddol a defnyddiwyd y brand gan Moilin i ddatblygu ap gyntaf y Sioe Amaethyddol yn barod ar gyfer gwŷl 2013. Roedd yn ap cynhwysfawr oedd yn rhoi holl wybodaeth am stondinau, cystadlaethau a digwyddiadau'r sioe ar flaen bys. Roedd hapddalwyr y prosiect eisoes yn hapus iawn gyda'r prosiect, ac er bod yna broblemau gyda chysylltiad i'r we ar faes y sioe, roedd yr ap wedi cael ei ganmol yn helaeth fel ychwanegiad pwysig i adnoddau tywys y sioe frenhinol.
iPhone : http://moil.in/royalwelshios
Android : http://moil.in/royalwelshdroid













Dyma bartneriaeth hynod effeithiol rhwng dau gwmni. Mae aelodau o dimoedd Moilin ac Optimwm wedi cydweithio am bron i ddegawd ac maent yn canmol sgiliau ei gilydd ar brosiectau digidol. Mae pob aelod o'r tim yn medru ar y Gymraeg, a'r rhan helaeth yn iaith gyntaf. Rydym oll yn angerddol am ddatblygu adnoddau trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

Yn ystod Haf 2014, fe gomisiynwyd Optimwm gan Brifysgol Bangor i ddatblygu ap dysgu iaith ryngweithiol. Mae'r ap wedi ei anelu at lefelau Mynediad a Sylfaen ac roedd angen iddo hefyd ganiatáu dysgu annibynnol fel teclyn dysgu ategol ar gyfer cyrsiau sydd eisoes yn bodoli. Mae'r ap wedi'i adeiladu gan ddefnyddio fframwaith, sy'n caniatáu ail-ddefnyddio trwy ffurfweddu ar gyfer achosion eraill o ddysgu. Optimwm-Moilin oedd yn gyfrifol am ddatblygu'r cysyniad, dylunio cyfarwyddiadol, y cynnwys a'r fideo. Mae gan yr ap 22 o sgrînau ddysgu gwahanol gan gynnwys llenwi'r bylchau, ail-drefnu brawddeg, chwilair, hangman, fideo, sain a chwestiynau aml-ddewis. Mae'r adborth hyd yn hyn wedi bod yn bositif iawn. (http://moil.in/learncymraeggogios)




Yn fwy diweddar, mae Optimwm-Moilin wedi cydweithio ar ap arloesol ar gyfer S4C Digidol. Noddwyd yr ap hwn gan Lywodraeth Cymru a'r briff oedd i ddatblygu ap dysgu iaith i gyd-fynd ac i gefnogi gwasanaeth newydd i ddysgwyr Cymraeg a ddechreuodd ym mis Medi, 2014. (http://moil.in/apdalati)
http://www.s4c.co.uk/c_press_level2.shtml?id=2400

Dyna flas o'r prosiectau rydym wedi eu cynhyrchu hyd yn hyn ac fe fyddai derbyn y grant digidol yn caniatáu i ni ehangu ein portffolio o adnoddau digidol sy'n hybu'r iaith Gymraeg.

**2.6 Disgrifiwch sut y byddwch yn casglu gwybodaeth er mwyn monitro cynnydd yn erbyn eich canlyniadau a'ch targedau.**

Describe how you will collect information in order to monitor progress against your outcomes and targets

Bydd yr ap yn defnyddio 'Google Analytics' i gasglu gwybodaeth y defnyddwyr, gan gynnwys y nifer sy'n:

- defnyddio'r ap
- mynd mewn i uned
- cwblhau uned
- cofnodi sgôr.

Bydd y data yma yn rhoi gwelededd i ni ar ddefnydd cyffredinol yr ap.

Fe fyddwn ni hefyd yn danfon holiaduron electroneg i'n prif gynulleidfaoedd darged i gael gweld:

- os ydynt wedi clywed am yr ap
- wedi defnyddio'r ap
- eu barn am yr ap
- eu cefndir ieithyddol / defnydd o'r Gymraeg
- sut y gellid datblygu'r ap ymhellach/ ychwanegu ato yn y dyfodol (pe bai cyllid ar gael)

Fe fyddwn ni hefyd wrth gwrs yn treialu'r ap gyda'r tri unigolyn rydym wedi creu proffil ohonynt uchod a'n prif gynulleidfaoedd darged sef:

- Siân Phillips
- Mabli Tudur
- Bryn Jones
- Dysgwyr e.e. Prifysgol Abertawe
- Myfyrwyr e.e. Prifysgol Bangor

**2.7 Rhowch grynodeb o'r systemau rheoli y byddwch yn eu defnyddio i reoli'r prosiect a'r gyllideb, a sicrhau ei fod yn cyrraedd ei amcanion.**

Provide a summary of the management systems you will use to manage the project and the budget, and ensure that it meets its objectives.

**DULL RHEOLI PROSIECTAU**

**METHODOLEG RHEOLI PROSIECTAU**

Rydym wedi datblygu set o weithdrefnau rheoli a chyflawni prosiectau sy'n sicrhau llwyddiant y prosiect, sydd wedi'i sefydlu trwy brofiad. Trwy ddefnyddio strwythur a ddarperir gan Prince2 ynghyd â methodolegau meddalwedd hyblyg rydym yn sicrhau bod y prosiect yn datblygu gyda strwythur ffurfiol a chydnabyddedig, sianelau cyfathrebu agored, rheoli materion a thrin risg yn glir, ynghyd â gwelededd o gynnydd drwy gydol y prosiect.

**CYLCH OES Y PROSIECT**

Bydd y prosiect yn cael ei ddiffinio gan ddefnyddio camau gwahanol, mae'r camau hyn yn caniatáu i'r tîm a rhanddeiliaid i fonitro cynnydd yn hawdd. Mae pob cam yn cynnwys ei allbynnau hun y mae'n rhaid eu cyflawni cyn symud ymlaen i'r cam nesaf.

**CAM 1 - CYCHWYN Y PROSIECT**

Ar y dechrau, mae'r Ddogfen Cychwyn Prosiect (PID) yn cael ei ddatblygu. Trwy weithio o'r Achos Fusnes, mae'r agweddau canlynol o bob prosiect yn cael eu nodi; nodau ac amcanion, budd-daliadau, pwrpas, tybiaethau, y gyllideb, risgiau a cherrig milltir yn fanwl. Mae'r PID yn cael ei gynnal i adlewyrchu unrhyw newidiadau a wnaed yn ystod y prosiect.

**CAM 2 - MANYLEB**

Yn ystod y cam yma, mae'r tîm yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y prosiect yn cwmpasu'r gofynion, bod gofynion yn cael eu cofnodi'n fanwl a'r holl ymchwil angenrheidiol yn cael ei wneud. Bydd agweddau technegol yn cael ei sefydlu, cytuno a'u dogfennu.

Mae'r gweithgareddau unigol sydd ynghlwm â dylunio technegol, dylunio cyfarwyddiadol ac uno dylunio graffeg yn cael eu cyfuno i ffurfio'r Ddogfen Fanyleb Manwl, sydd yn ffurfio sail yr adnodd.

**CAM 3 - CYNHYRCHU**
Y cam yma yw lle mae'r allbynnau yn cael eu cynhyrchu. Mae'r drafodaeth ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud wedi ei gwblhau ac yn ystod y cam hwn mae'r datblygu technegol yn digwydd.

**CAM 4 - ADOLYGU**
Mae'r cam Adolygu yn cael ei ddefnyddio i fyfyrio ar ganlyniadau'r prosiect ac mae'n rhoi cyfle i ymgysylltu â rhanddeiliaidau er mwyn sicrhau bod y prosiect yn cyflawni ei ganlyniadau dymunol.

**CYFATHREBU**

Mae cyfathrebu yn rhan hanfodol o gyflawni prosiectau llwyddiannus. Rydym yn cydnabod yr holl randdeiliaidau a diffinio dulliau cyfathrebu addas a phriodol sy'n cynorthwyo cyfathrebu clir a chyson. Ein nod yw sicrhau bod ein sianelau cyfathrebu yn helpu i liniaru'r risg ac i sicrhau llwyddiant y prosiect.

**ADRODDI**

Mae Optimwm yn sicrhau bod rhanddeiliaid priodol yn cael eu hysbysu o weithgareddau, datblygiadau prosiect, y gyllideb a statws yr amserlen drwy ddosbarthu adroddiad amlygu rheolaidd. Mae'r adroddiad hwn yn sicrhau gwelededd ar gyfer chi fel y cleient ac ar gyfer tîm Optimwm ac mae'n hanfodol bwysig fel dull o fonitro a rheoli'r prosiect. Mae'r adroddiadau hyn hefyd yn ffurfio archwiliad gwerthfawr o'r gweithgaredd prosiect

**RHEOLI CYLLID**
Mae Optimwm yn brofiadol yn rheoli cyllideb ac yn fedrus wrth reoli cyllidebau bach a mawr hyd at dros £3m. Rydym ni'n defnyddio system a ddatblygwyd sy'n sicrhau y gallwn adroddi'r cyllid yn aml, neu drwy adroddiad amlygu misol, sydd yn ffordd o gadw yr holl randdeiliaidau yn wybodus.

**2.8 Sut clywsoch chi am y grant?**

How did you hear about the grant?

Roedden ni'n ymwybodol o'r grant ac yn edrych allan amdano ac fe dderbynion ni e – bost oddi wrth gysylltiad o fewn y Llywodraeth yn ein hysbysu amdano.

| **3. ALLBYNNAU A CHANLYNIADAU'R PROSIECT**<br>OUTPUTS AS A RESULT OF THE PROJECT | | | |
|---|---|---|---|
| **3.1 Sut y bydd y gweithgareddau a nodwyd yn eich cais yn cyfrannu at wireddu amcanion 'Cynllun Gweithredu Technoleg a'r Cyfryngau Digidol Cymraeg'? Dewiswch y thema/themâu sy'n briodol i'r prosiect o'r rhestr isod. *Gweler atodiad 1 o'r ddogfen 'Canllawiau a meini prawf ar gyfer y cynllun grant' am wybodaeth ynghylch targedau CAMPUS.***<br>How will the activities set out in your application contribute to delivering the Welsh Language, Technology and Digital Media Action Plan objectives? Select the theme/themes relevant to your project from the list below. *See attachment 1 of the 'Guidance and Criteria for the Grant Scheme' document for information about SMARTobjectives.* | | | |
| **Thema Cynllun Gweithredu Technoleg a Chyfryngau Digidol Cymraeg**<br>Theme of the Welsh Language Technology and Digital Media Action Plan | **Y canlyniadau ieithyddol yr hoffech eu sicrhau**<br>The linguistic results you would like to ensure | **Targedau CAMPUS i wireddu'r canlyniadau hyn.**<br>SMART objectives to realise these results. | **Pryd y byddant yn cael eu cyflawni**<br>When they will be delivered |
| **1. Marchnata a chodi ymwybyddiaeth o'r dechnoleg a'r cynnwys digidol sydd ar gael yn y Gymraeg ar hyn o bryd;**<br>Marketing and raising awareness of the technology and digital content which is currently available in Welsh; | ☐ | ☐ | |
| **2. Ysgogi'r prif gwmnïau technoleg i gynyddu'r ddarpariaeth a gynigir yn y Gymraeg ganddynt;**<br>Motivating the main technology companies to encourage an increase in the Welsh language provision offered by them; | ☐ | ☐ | |
| **3. Ysgogi datblygiad pecynnau meddalwedd a gwasanaethau digidol Cymraeg newydd;**<br>Encouraging the development of new Welsh language software applications and digital services; | ☐ | ☐ | |
| **4. Ysgogi, creu, rhannu a defnyddio cynnwys digidol Cymraeg;**<br>Stimulating the creation, sharing and consumption of Welsh language digital content; | **Dyma'r canlyniadau ieithyddol y dymunir eu gweld o ddatblygu'r cynllun hwn:** | **Gwelir ein targedau CAMPUS oddi tano:** | **Dyma'r adegau rydym yn rhagweld y byddant yn cael eu cyflawni:** |
| | Datblygu ap arloesol ond sicrhau hygyrchedd – fod y Gymraeg o hyd yn ddealladwy ac yn ddigon syml. Ni fydd yr ap yn dieithrio dysgwyr a'r rheini sy'n teimlo nad yw eu Cymraeg yn | Gweithio gydag Aneirin Karadog a chreu templedi difyr a hawdd i'w defnyddio. Treialu'r adnodd gyda Siân Phillips, Mabli Tudur, Bryn Jones yn ogystal â dysgwyr. | Trwy gydol y prosiect a treialu mis Mehefin 2015. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ddigon safonol. | | |
| | Creu cysylltiadau cryf gyda mentrau iaith a Chomisiynydd y Gymraeg, Meri Huws i sicrhau fod yr ap yn addas ac yn cael ei hyrwyddo. | Ymgyrch Farchnata – gyda lawns fel pinacl yn yr Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau | Ebrill – Awst 2015 |
| | Sicrhau fod yr ap yn cynnwys iaith graenus – dim iaith tecstio a'r hyn a welir ar gyfryngau cymdeithasol ar brydiau. | Sicrhau ein bod yn canmol Strategaeth Iaith Byw: Iaith Fyw y Llywodraeth gan roi cyfleoedd i deuluoedd, pobl ifanc a grwpiau i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd. Gweithio gydag Aneirin Karadog a threialu'r adnodd gyda Siân Phillips, Mabli Tudur, Bryn Jones yn ogystal â dysgwyr. Mae gennym gysylltiadau gyda Phrifysgolion Bangor, Abertawe, Y Drindod a Morgannwg. | Trwy gydol y prosiect a treialu mis Mehefin 2015. |
| | Annog apiau a deunydd digidol Cymraeg yn y byd llenyddol. | Datblygu templedi a marchnata'r ap yn y byd llenyddol drwy cylchgronnau ag ati. Codi ymwybyddiaeth ohono o fewn y Llywodraeth hefyd o fewn ein strategaeth farchnata. | Trwy gydol y prosiect |
| | Adfywio traddodiadau ieithyddol a llenyddol a helpu'r Cymry i ddysgu a defnyddio onomatopoeia a chyflythrennu – gloywi iaith yn hyn o beth. | Gweithio gydag Aneirin Karadog. | Trwy gydol y prosiect |
| | Annog pobl nad ydynt yn meddu ar sgiliau TG uchel i ddechrau defnyddio apiau – a rhai cyfrwng Cymraeg i ddechrau hefyd! | Marchnata gofalus, cyson ac eang. Ni fydd y gynulleidfa hyn o rheidrwydd ar Twitter a Facebook, felly mi fydd angen defnyddio ffurf mwy tarddodiadol o'u cyrradedd megi erthyglau, hydbysebion a chyfweliadau. | Ebrill – Awst 2015 |
| **5. Cefnogi arfer da yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.** Supporting good practice in the public, private and third sectors. | ☐ | ☐ | |

| 4. MANYLION AELODAU'R CONSORTIWM (PARTNER 2)<br>DETAILS OF MEMBERS OF THE CONSORTIUM (PARTNER 2) | |
|---|---|
| **Os yw'r cais yn cael ei gyflwyno gan fwy nag un sefydliad, rhowch fanylion y sefydliadau sy'n rhan o'r consortiwm isod. (Copïwch y tabl hwn fel bo angen)**<br>If the application is being presented by more than one organisation, please provide details of the organisations that make up the consortium below. (Copy this table as needed). | |
| **4.1 Enw'r sefydliad**<br>Name of organisation | |
| **4.2 Cyfeiriad a chod post**<br>Address including postcode | |
| **4.3 Gwefan**<br>Website | |
| **4.4 Enw'r swyddog cyswllt fydd yn cydlynu gwaith y prosiect ar ran y sefydliad ac E-bost**<br>Contact name for person coordinating the project work on behalf of the organisation and E-mail | |
| **4.5 Swydd**<br>Position | |
| **4.6 Ffôn**<br>Tel no | |
| **4.7 E-bost**<br>E-mail | |
| **4.8 Profiad perthnasol i'r prosiect**<br>Experience relevant to the project | |

| 4.9. MANYLION AELODAU'R CONSORTIWM (PARTNER 3)<br>DETAILS OF MEMBERS OF THE CONSORTIUM (PARTNER 3) | |
|---|---|
| **Os yw'r cais yn cael ei gyflwyno gan fwy nag un sefydliad, rhowch fanylion y sefydliadau eraill sy'n rhan o'r consortiwm isod. (Copïwch y tabl hwn fel bo angen)**<br>If the application is being presented by more than one organisation, please provide details of the other organisations that make up the consortium below. (Copy this table as needed). | |
| **4.10 Enw'r sefydliad**<br>Name of organisation | |
| **4.11 Cyfeiriad a chod post**<br>Address including postcode | |
| **4.12 Gwefan**<br>Website | |
| **4.13 Enw'r swyddog cyswllt** | |

| | |
|---|---|
| **fydd yn cydlynu gwaith y prosiect ar ran y sefydliad ac E-bost**<br>Contact name for person coordinating the project work on behalf of the organisation and E-mail | |
| **4.14 Swydd**<br>Position | |
| **4.15 Ffôn**<br>Tel no | |
| **4.16 E-bost**<br>E-mail | |
| **4.17 Profiad perthnasol i'r prosiect**<br>Experience relevant to the project | |

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

| **5. GWYBODAETH ARIANNOL**<br>FINANCIAL INFORMATION | | | |
|---|---|---|---|
| **5.1: Gwybodaeth ariannol: costau staff** | | | |
| **Cyflogau: nodwch y manylion canlynol ar gyfer unrhyw swyddi y gwneir cais ar eu cyfer. Nodwch gyfanswm y cyflogau ynghyd â chyfanswm cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer yswiriant gwladol a phensiwn.** | | | |
| 5.1: Financial information: staff costs | | | |
| Salaries: please provide the following details for any posts for which this application is being made. State the sum total of salaries together with employer contributions for National Insurance and pension. | | | |
| **Swydd**<br>Post | **Costau cyflog llawn (gan gynnwys pensiwn ac yswiriant gwladol)**<br>Total Salary Cost (including pension and national insurance)<br>£ | **Cyfraniad grant y gwneir cais i Lywodraeth Cymru amdano**<br>Contribution of Welsh Government grant sought<br>£ | **Grant Llywodraeth Cymru fel %**<br>The Welsh Government's grant as a % |
| Rheolwr Prosiectau | 3500 | £0.00 | 1% |
| Ymchwilydd | 2500 | £0.00 | 2% |
| Golygu cynnwys | 1250 | £0.00 | 3% |
| Dylunydd | 1000 | £0.00 | 4% |
| Profi | 800 | £0.00 | 5% |
| | £0.00 | £0.00 | 0% |
| | £0.00 | £0.00 | 0% |
| | £0.00 | £0.00 | 0% |
| | £0.00 | £0.00 | 0% |
| | £0.00 | £0.00 | 0.00% |
| **Cyfanswm costau swyddi/Total cost of posts** | £9050 | £0.00 | 0.00% |

| **5.2: Costau eraill**<br>5.2: Other costs | **Disgrifiad o'r gost**<br>Description of cost | **Cost llawn**<br>Full costs | **Grant Llywodraeth Cymru**<br>Welsh Government | **Grant Llywodraeth Cymru fel %** |
|---|---|---|---|---|

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

| | | | grant | Government's grant as a % |
|---|---|---|---|---|
| 1. **Costau swyddfa (ee rhent, trydan). Os yw eich costau swyddfa yn fwy na 10% o gyfanswm y cyflogau bydd angen i chi restru'r holl gostau rhedeg.** *Office Costs (e.g. rent, electricity). If your office costs are more than 10% of the salary totals you will need to list all of your running costs.* | | £0.00 | £0.00 | 0.00% |
| | | £0.00 | £0.00 | 0.00% |
| | | £0.00 | £0.00 | 0.00% |
| | | £0.00 | £0.00 | 0.00% |
| | | £0.00 | £0.00 | 0.00% |
| | | £0.00 | £0.00 | 0.00% |
| | | £0.00 | £0.00 | 0.00% |
| | | £0.00 | £0.00 | 0.00% |
| 2. **Costau gweithgareddau** *Cost of activities* | Datblygu'r ap | £19,500.00 | £19,500.00 | 100% |
| | Arbenigwr pwnc a chynnwys | £2,000.00 | £2,000.00 | 100% |
| | Gwirio a phrawf ddarllen cynnwys | £1,000.00 | £1,000.00 | 100% |
| | | £0.00 | £0.00 | 0.00 |
| | | £0.00 | £0.00 | 0.00% |
| | | £0.00 | £0.00 | 0.00% |
| | | £0.00 | £0.00 | 0.00% |
| | | £0.00 | £0.00 | 0.00% |
| **Cyfanswm costau** Total costs | | £22,500.00 | £22,500.00 | 100.00% |

| **5.3: Cyfansymiau** 5.3: Totals | **Cost llawn** Full costs | **Grant Llywodraeth Cymru** Welsh Government grant | **Grant Llywodraeth Cymru fel %** Government's grant as a % |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm costau swyddfa a gweithgareddau** Total office and activity costs | £22,500.00 | £22,500.00 | 100.00% |
| **Cyfanswm costau staff** Total staff costs | £9050 | £0.00 | 0.00% |
| | | | |
| **1. Cyfanswm eich holl gostau** Total costs | £22,500 | | |
| **2. Cyfanswm y grant yr ydych yn ceisio amdano** Total grant sought | £22,500 | | |
| **3. Canran cyfraniad Llywodraeth Cymru ar eich gweithgareddau** | 100% | | |

| Percentage contribution of Welsh Government's grant to your activities | | | |
|---|---|---|---|

**5.4: Arian cyfatebol (os yn berthnasol)**

5.4: Match Funding (if relevant)

**Nodwch o ble y daw unrhyw arian cyfatebol**

Note below the source of any match funding.

| Ffynhonnell/Source | Swm/Sum (£) |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

**5.5: Taliadau o flaen llaw**

**Polisi Llywodraeth Cymru yw talu trwy ôl-daliadau. Fodd bynnag, mae'n cydnabod nad yw rhai sefydliadau yn cadw llawer o arian wrth gefn ac nad oes ganddynt yr adnoddau i ymgymryd â gwaith gan dderbyn tâl wedi iddo gael ei gwblhau. Gallwn ystyried darparu cyllid ar gyfer gwariant ymrwymedig cyn talu os darperir tystiolaeth glir o'r angen amdano. Os oes angen taliad o flaen llaw arnoch, llenwch Atodiad 1.**

5.5: Payment in advance

The Welsh Government's policy is to make payments in arrears. However, it recognises that some organisations do not hold large reserves and do not have the resources to undertake work and receive payment afterwards. Provision of funding for committed expenditure may be considered in advance of payment but only where evidence of need is clearly established. If payment in advance is required then please fill Annex 1

**Nid oes angen taliad o flaen llaw (Gweler atodiad am ein sefyllfa ariannol)**

**5.6 Sut hoffech dderbyn y grant? Cyfres o randaliadau yn seiliedig ar wariant neu ar ddiwedd y project?**

5.6 How would you like to receive the grant? A series of instalments based on expenditure or on completion of the project?

**Byddai derbyn y grant fesul taliadau wrth i ni gyrraedd cerrig milltir tyngedfenol yn natblygiad y gwaith yn ddelfrydol. E.e.**

| DYDDIAD | TALIAD |
|---|---|
| 31 Mai '15 | £8500 (Moilin - £7000, Prawf ddarllen £500, Arbennigwr pwnc - £1000) |

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

| | |
|---|---|
| 31 Gorffennaf '15 | £8500 (Moilin - £7000, Prawf ddarllen £500, Arbennigwr pwnc - £1000) |
| 30 Hydref '15 | £5500 (Moilin - £5500) |
| | **Cyfanswm** £22,500 |

**5.7 Faint o gymorth cyhoeddus ydych wedi'i dderbyn o dan y Rheoliad De Minimis yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd flaenorol? (Os ydych wedi derbyn dros €200,000 mewn arian de minimis yn ystod y tair blynedd flaenorol, nid ydych yn gymwys i dderbyn grant gan Lywodraeth Cymru o dan y cynllun hwn).**
How much public support have you received under the de minimis Regulation in the current and previous two fiscal years? (Please note that if you have received over €200,000 in de minimis funding during the last three fiscal years, you are not eligible to receive grant funding from the Welsh Government under this scheme).

| **Dyddiad** Date | **Ffynhonnell** Source | **Swm £** Amount £ |
|---|---|---|
| 29/9/14 | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | £496.54 |
| | | |
| | | |
| | CYFANSWM | £496.54 |

| | |
|---|---|
| **5.8 Cadarnhewch fod eich sefyllfa ariannol yn galluogi'ch sefydliad i barhau yn ystod 2015-16** *Please confirm that your financial situation will allow your organisation to operate as a going concern during 2015-16* | **Ydy/**Yes |
| **5.9 Cadarnhewch nad oes unrhyw un o swyddogion neu aelodau eich sefydliad yn cael ei amau, neu wedi'i gael yn euog, o dwyll neu unrhyw drosedd berthnasol arall. Mae'n rhaid i chi hysbysu Llywodraeth Cymru ar unwaith os na fedrwch wneud hyn. Cliciwch y blwch ar y dde.**<br><br>*Please confirm that no official or member of your organisation is being suspected, or has been found guilty of, fraud or any other relevant offence. You must inform the Welsh Government* | **Neb o dan amheuaeth neu wedi'i gael yn euog**/Nobody under suspicion or been found guilty |

| | |
|---|---|
| *immediately if you are unable to do this.  Please click the box on the right* | |

| **RHESTR WIRIO**<br>CHECKLIST |
|---|
| 1. **A ydych wedi sicrhau eich bod yn gymwys i ymgeisio am y grant?** *Have you checked that you are eligible to apply for this grant?*<br>2. **A ydych wedi cwblhau pob adran berthnasol yn cynnwys pob sefydliad sy'n rhan o'r cais?** *Have you completed all relevant sections, including all organisations that are part of the application?*<br>3. **A ydych wedi cynnwys eich cyfrifon archwiliedig diweddaraf, neu ddolen gwe iddynt? (Sector preifat a trydydd sector yn unig)** *Have you included your most recent audited accounts or a link to their location? (Private and third sector only)*<br>4. **A ydych wedi cwblhau'r datganiad De Minimis yn 5.7 uchod?** Have you completed the De Minimis statement at 5.7 above?<br>5. **A ydych wedi cynnwys eich cyfansoddiad, neu ddolen gwe iddo? (Sector preifat a trydydd sector yn unig)** Have you included you constitution *or a link to its location? (Private and third sector only)* |

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

| |
|---|
| **Rwy'n cadarnhau bod yr holl wybodaeth a roddir yn y ffurflen hon, ac mewn unrhyw ddeunydd ategol, yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth. Drwy e-bostio'r ffurflen hon at Lywodraeth Cymru, cydnabyddaf fod gennyf awdurdod llawn fy sefydliad i ymgeisio am grant gan Lywodraeth Cymru.**<br><br>I confirm that all of the information given in this form and any supporting material is correct to the best of my knowledge. By e-mailing this form to the Welsh Government, I acknowledge that I have the full authority of my organisation to apply for a grant from the Welsh Government. |

| | |
|---|---|
| **Enw a llofnod swyddog cyswllt yn y sefydliad:**<br>Name and signature of contact person within the organisation: | **Enw/**Name: Lowri Harris<br><br>**Llofnod**/Signature: Lowri Harris<br><br>**Rôl o fewn y sefydliad** : Cyfarwyddwr<br>Role within the organisation:<br><br>**Dyddiad** / Date: 30-01-2015 |

**Dyma ddarlun o sefyllfa ariannol cwmni Optimwm: -**

**Cyfnod Mawrth 2014-Ionawr 2015**

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm incwm:** | **166,387.38** |
| **Cyfanswm gwariant** | **96,204.84** |
| **Cyfanswm elw** | **65,085.88** |

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cyfanswm cyfrif banc: £37,973.80**

**Cyfanswm taliadau a ddisgwylir: £21,167.50**

**Cyfanswm cyfrif banc: £59,141.50**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cyfarwyddiadau**

- Gofynnir i chi lenwi'r ffurflen gais yn electronig, a chynnwys dolenni i'r dogfennau a restrir yn y paragraff isod os oes copïau electronig ohonynt ar gael. Dylech e-bostio'r ffurflen gais i techcy@cymru.gsi.gov.uk erbyn canol dydd, 30 Ionawr 2015. Dylech wedyn hefyd anfon copi caled o'ch cais, wedi'i lofnodi, dim hwyrach na 13 Chwefror 2015. Anfonwch eich cais at yr Uned Iaith Gymraeg, 3ydd Llawr, Parc Cathays 2, Caerdydd, CF10 3NQ.

- Ni chaiff ceisiadau hwyr eu hystyried.

- Caiff pob cais ei dderbyn a'i asesu ar sail yr wybodaeth a ddarperir gennych. Ein bwriad yw hysbysu ymgeiswyr o ganlyniad eu cais cyn diwedd Mawrth 2015.

- Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn cadarnhau eich canlyniadau a'ch targedau yn y llythyr cynnig grant.

**Instructions**

- You should e-mail the form to us at techcy@wales.gsi.gov.uk by 12.00 midday, 30 January 2015. You should also send a signed hard copy of your application to us no later than 13 February 2015. Please send completed application forms to: The Welsh Language Unit, 3rd Floor, Cathays Park 2, Cardiff, CF10 3NQ.

- Late applications will not be accepted.

- Each application will be accepted and assessed on the basis of the information provided by you. We will aim to inform applicants of the result of their application during March 2015.

- Should your application be successful, your outcomes and targets will be confirmed in your grant offer letter.